**FFURFLEN GAIS**

| Rhif y Cwestiwn | Cwestiynau ac Atebion | |
|---|---|---|
| | | **Fformat yr Ateb** |
| Pennawd: Gwirio a yw'r cyllid hwn yn iawn i chi | | |
| 1 | A yw eich cais partneriaeth wedi'i arwain gan yr awdurdod lleol (rhaid i'r awdurdod lleol fod yn brif bartner) ac a ydych chi'n gallu darparu llythyr cymeradwyo a lofnodwyd gan bartneriaid gorfodol? DS Os nad ydych chi wedi nodi eich partneriaid Gwirfoddol, Cymunedol, Ffydd a Mentergarwch Cymdeithasol (VCFSE) eto, dywedwch hyn yn eich llythyr (i'w atodi fel rhan o'r prif gais).<br><br>Fel elfennau sylfaenol, rhaid i bartneriaethau gynnwys:<br>Awdurdod Lleol - gan gynnwys help cynnar; gofal cymdeithasol plant; Tîm Troseddu Ieuenctid<br>Partneriaid cyflwyno VCFSE<br>Yr Heddlu<br>Gweithwyr proffesiynol iechyd meddwl i blant a phobl ifanc<br>Addysg gan gynnwys ysgolion | Opsiynau: √/X |
| 2 | Ydych chi'n gofyn am gyllid ar gyfer gwaith yng Nghymru a/neu Loegr? | Opsiynau: √/X |
| 3 | Ydych chi'n credu y bydd eich gwaith yn lleihau'r tebygrwydd y bydd pobl ifanc mewn perygl o drais, ac effeithiau hynny, neu'n lleihau'r tebygrwydd y bydd trais yn effeithio arnynt?<br><br>Ydych chi'n credu y bydd eich gwaith yn lleihau'r tebygrwydd y bydd pobl ifanc yn destun gwasanaethau statudol yn hwyrach ym mywyd, ac effaith hynny (h.y. Mynd i mewn i'r system gofal neu'n derbyn cymorth i deuluoedd)? | Opsiynau: √/X |

| | | |
|---|---|---|
| 4 | Bydd yn rhaid i ymgeiswyr llwyddiannus ddangos y meini prawf canlynol:<br><br>(i) Lefelau uchel o drais ieuenctid a/neu droseddu yn ardaloedd y gymdogaeth y byddwch chi'n gweithio ynddynt (o leiaf 2 ardal). Ydych chi'n gallu gwneud hyn?<br><br>(ii) Bod nifer y plant a'r bobl ifanc sy'n rhan o'r cwmpas am gymorth o'r ddau dîm aml-asiantaeth yn eu cannoedd. Ydych chi'n gallu gwneud hyn? (Gweler am ganllawiau am amlinelliad o nodweddion y bobl ifanc yn y cwmpas)<br><br>(iii) Mae o leiaf dwy gymdogaeth arall yn ardal yr awdurdod lleol (neu awdurdod lleol arall y gallech chi weithio mewn partneriaeth ag ef) a fyddai â'r niferoedd o blant a phobl ifanc yn y cwmpas ar gyfer prosiectau posib ar raddfa fwy yn dilyn yr astudiaeth dichonoldeb. Ydych chi'n gallu gwneud hyn?<br><br>(iv) Rydym ni'n croesawu ceisiadau o bob rhan o Gymru a Lloegr.  Rydym ni angen gwybod a yw'r plant a'r bobl ifanc yn y cwmpas eisoes yn rhan o werthusiad o effaith, naill ai wedi'i ariannu gan YEP neu gan gyllidwr arall a beth yw hyn. | Opsiynau:<br>(i) √/ X<br>(ii) √/ X<br>(iii) √/ X<br>(iv) Nid yw plant yn y cwmpas eisoes yn rhan o astudiaeth o effaith / Mae plant yn y cwmpas eisoes yn rhan o astudiaeth o effaith ac os felly, beth yw hi? |
| 5 | A yw'r prosiect rydych chi'n ei ddisgrifio'n wahanol i'r gofal statudol y mae pobl ifanc bob amser yn ei dderbyn?  Er mwyn i ni allu gwerthuso eich prosiect, mae angen iddo fod yn wahanol i'r hyn mae plant a phobl ifanc bob amser yn ei dderbyn fel rhan o ddyletswyddau statudol. Mae hyn oherwydd bod angen i ni gymharu effaith eich prosiect â'r cymorth mae'r | Opsiynau: √/X |
| 6 | Mae pob prosiect YEF a ariennir yn cael ei werthuso'n annibynnol er mwyn ein galluogi ni i ddysg rhagor am yr hyn sy'n gweithio a'r hyn nad yw'r gweithio wrth leihau trais ieuenctid. Bydd yn rhaid i chi weithio gyda phartner gwerthuso drwy gydol y prosiect. Gweler ein gwefan a gwyliwch ein fideo ar werthuso am ragor o wybodaeth.<br><br>Ydych chi wedi darllen yr wybodaeth gefnogi ac wedi gwylio ein fideos?<br><br>Ydych chi wedi rhannu'r wybodaeth hon gyda phenderfynwyr allweddol yn eich sefydliad a gyda'ch partneriaid prosiect arfaethedig?<br><br>A yw eich sefydliad chi ac unrhyw bartneriaid prosiect yn cytuno i weithio gyda gwerthusydd annibynnol?<br><br>Os ydych chi'n dewis √, byddwn yn cymryd yn ganiataol am weddill y broses cyflwyno cais y byddwch chi'n cydymffurfio â'n hymagwedd. Nid oes modd i YEF gyfaddawu ar hyn felly sicrhewch fod yr aelodau perthnasol yn eich sefydliad wedi darllen a deall ein hymagwedd ac wedi cytuno iddi. | Opsiynau: √/X |

| | | |
|---|---|---|
| 7 | Mae'r Youth Endowment Fund yn bodoli er mwyn canfod beth sy'n gweithio i atal plant a phobl ifanc rhag mynd ynghlwm â thrais. Rydym ni am i bobl ifanc gael y cymorth gorau posib ar yr adeg iawn. Golyga hyn y bydd yn rhaid i ni gynnal y mathau mwyaf cadarn o ymchwil. Yn y ffordd honno, bydd mwy a mwy o bobl ifanc yn derbyn y gwasanaethau sy'n seiliedig ar dystiolaeth maent yn eu headdu. Golyga hyn y byddwn ni'n cynnal gwerthusiadau sydd â 'grŵp rheoli' o blant a phobl ifanc nad ydynt yn cymryd rhan mewn gweithgaredd. Mewn llawer o achosion, mae angen neilltuo pobl ifanc i'r 'grŵp rheoli' hwn ar hap, oherwydd fel arall mae'n amhosib gwybod os yw rhywbeth gwir yn gweithio. Dewiswch '√' i gadarnhau eich bod chi'n deall mai dyma sut rydym ni'n gweithio neu 'X' os nad ydych chi am ein helpu ni i wneud hyn. | √ – Rwy'n deall bod sefydlu grŵp rheoli o blant nad ydynt yn derbyn yr ymyrriad a'r posibilrwydd o neilltuo'r grŵp rheoli ar hap yn rhan allweddol o'r cyllid hwn<br>X – Dw i ddim yn meddwl bod hyn i mi |
| 8 | Ynglŷn â'n harchif data gwerthuso - Mae'n ofyniad i brosiectau a ariennir gan YEF gytuno i'n hymagwedd at gasglu data hir-dymor drwy ein harchif data. Mae'r archif data yn golygu y byddwn ni'n gallu dysgu mwy am yr hyn sy'n gweithio a'r hyn nad yw'n gweithio i leihau trais ieuenctid yn yr hir-dymor. Ni fyddwch yn gallu symud ymlaen gyda'n cyllid oni bai eich bod chi, eich sefydliad(au) a lle bo'n briodol, eich partneriaid, wedi darllen, deall a chytuno i'n harchif data. Darllenwch [INSERT LINK TO OUR APPLICATION] a gwyliwch [INSERT LINK TO LUCY'S VIDEO]. Am ragor o wybodaeth, ewch i'm gwefan https://youthendowmentfund.org.uk/faqs-the-youth-endowment-fund-data-archive/<br><br>- Ydych chi wedi darllen yr wybodaeth gefnogi ac wedi gwylio ein fideos?<br>- Ydych chi wedi rhannu'r wybodaeth hon gyda phenderfynwyr allweddol a/neu arweinwyr data perthnasol yn eich sefydliad a gyda'ch partneriaid prosiect arfaethedig?<br>- A yw eich sefydliad a, lle bo'n briodol, partneriaid y prosiect, yn cytuno i'r archif data?<br>- Os ydych chi'n dewis √, byddwn yn cymryd yn ganiataol am weddill y broses cyflwyno cais y byddwch chi'n cydymffurfio â'n hymagwedd. Nid oes modd i YEF gyfaddawu ar hyn felly sicrhewch fod yr aelodau perthnasol yn eich sefydliad wedi darllen, deall a chytuno i'n | Opsiynau:<br>Ydyn, mae ein sefydlad, tîm ein prosiect, gan gynnwys partneriaid y prosiect wedi darllen yr wybodaeth am yr archif data a'u bod yn cytuno cymryd rhan<br>Ydyn, mae ein sefydliad, tîm ein prosiect, gan gynnwys partneriaid y prosiect wedi darllen yr wybodaeth am yr achif data ond nid ydym yn cytuno i gymryd rhan<br>Nac ydyn, nid yw ein sefydliad, gan gynnwys unrhyw arweinwyr data a/neu dîm y prosiect a lle bo'n briodol, partneriaid y prosiect, wedi darllen yr wybodaeth am yr archif data |

| | | |
|---|---|---|
| 9 | Mae gennym ni ddiddordeb mewn archwilio effaith y gallai prosiectau ei chael ar ganlyniadau plant a phobl ifanc.<br><br>Canlyniadau yw'r newidiadau byddech chi'n gobeithio eu gweld yn sgil eich prosiect i'r plant a'r bobl ifanc rydych chi'n gweithio gyda nhw. Ar hyn o bryd, rydym ni wedi nodi rhestr hir o ganlyniadau dymor canolig a hir dymor posib a'r disgwyl yw y caiff y rhain eu cyfyngu yn ystod y cam paratoi, yn unol â Damcaniaethau Newid (gweler yr adran Canlyniadau o Ddiddordeb uchod.<br><br>I sicrhau ein bod ni'n casglu tystiolaeth o safon, bydd angen arnom ni i chi fesur pethau sy'n ein helpu ni i ddeall a yw'r prosiect yn helpu plant yn y ffordd rydych chi'n ei disgwyl. Er enghraifft, efallai y byddwn ni'n gofyn i chi fesur a oes gwelliannau wedi bod o ran ymddygiad y plant neu leihad o ran ymddygiad troseddol. Mae hynny oherwydd y bydd yn ein helpu ni i ganfod a yw eich prosiect yn gwneud gwahaniaeth i'rplant a'r bobl ifanc rydych chi'n gweithio gyda nhw dros amser.<br><br>Cadarnhewch mai dyma rywbeth rydych chi'n fodlon ei wneud ac yn gallu ei wneud.<br><br>Os nad ydych chi'n fodlon gweithio gyda'ch gwerthusydd i'n helpu i fesur effaith eich prosiect, nid yw ein cyllid yn addas i chi. | Opsiynau:<br>Ydy - mae fy mhrosiect eisoes yn gwybod y canlyniadau i blant a phobl ifanc byddwn yn canolbwyntio arnynt<br>Ydyn - rydym ni'n hapus i weithio gydag YEF i ganfod pa ganlyniadau i blant a phobl eraill y gallai ein prosiect ganolbwyntio arnynt<br>Nac ydyn - nid oes gennym ni ddiddordeb mewn archwilio sut y gallai ein prosiect effaithio ar ganlyniadau i blant a phobl eraill |
| 10 | Ydych chi wedi darllen y ddogfen ganllaw YEF perthnasol? | Opsiynau: Ydyn/nac ydyn |
| 1. PENNAWD: Eich Sefydliad | | |
| 11 | **Dywedwch wrthym ni amdanoch chi.**<br>Eich enw:<br>Eich cyfeiriad e-bost:<br>Eich rôl yn y sefydliad:<br>Eich rhif ffôn:<br>**Darparwch ail gyswllt:**<br>Enw:<br>Cyfeiriad e-bost<br>Rôl yn y sefydliad:<br>Rhif Ffôn | |
| 12 | Eich sefydliad.<br>Enw'r Sefydliad:<br>Cyfeiriad y Sefydliad: Cyfeiriad 1, Cyfeiriad 2, Tref/Dinas, Sir, Côd Post, Rhif Ffôn | Testun Rhydd [uchafswm o 250 gair] |
| 13 | Dywedwch wrthym am y ddwy gymdogaeth y byddech yn gweithio ynddynt e.e. gwybodaeth ddemograffig. | Testun Rhydd [uchafswm o 250 gair] |

| | | |
|---|---|---|
| 14 | A fyddwch yn gweithio mewn partneriaeth ag unrhyw sefydliadau eraill yn y prosiect hwn?<br><br>Mae partneriaid gofodol yn cynnwys:<br>Awdurdod lleol<br>Partneriaid cyflwyno VCFSE<br>Yr Heddlu<br>Gweithwyr proffesiynol iechyd meddwl i blant a phobl ifanc<br>Addysg<br>Y Gwasanaeth Prawf<br><br>Dylech chi atodi llythyr cymeradwyo a lofnodwyd gan uwch-arweinwyr yn yr awdurdod lleol a phob sefydliad partner gofynnol. DS Os nad ydych chi wedi sicrhau sefydliadau VCFSE eto, esboniwch hyn yn eich llythyr. | √/X |
| 15 | Rydym ni'n chwilio am sefydliadau gydag arweinyddiaeth gref sy'n creu diwylliant ac amgylchedd sy'n ei gwneud hi'n bod gwneud newid cadarnhaol i gyflawni prosiectau - darparwch dystiolaeth o hyn a'u bod nhw eisoes ar waith (e.e. sgoriau Ofstead am arweinyddiaeth; ymrwymiad gan arweinwyr i welliannau o safon ac arloesi; sgoriau arolygiadau ar gyfer arweinyddiaeth mewn sefydliadau partneriaeth a enwyd yn ehangach). | Testun Rhydd [uchafswm o 250 gair] |
| 16 | Ar gyfer y rownd hon o gyllid, rydym ni'n cydnabod pwysigrwydd ymgysylltiad, cydweithio a phartneriaethau rhwng Awdurdod Lleol, a chyda sefydliadau VCFSE lleol ac ehangach.<br><br>Allwch chi roi disgrifiad cryno o sut rydych chi'n cynllunio gweithio gyda sefydliadau VCFSE mewn cymdogaeth(au), nad ydynt wedi'u henwi fel partneriaid yn y cais hwn? | Testun Rhydd [uchafswm o 250 gair] |
| 17 | Oes gennych chi enw am eich prosiect arfaethedig? | Opsiynau: Testun rhydd - dim yn fwy na 10 gair |
| 2. Pennawd: Gwella amrywiaeth o sefydliadau rydym ni'n eu cyllido | | |
| 18 | Mae'r Youth Endowment Fund am weithio gydag amrywiaeth eang o sefydliadau.<br>- Pa ganran o'ch arweinyddiaeth a phob un o'ch partneriaid a enwyd ar gyfer y rownd hon sy'n uniaethu fel: Du, Asiaidd ac ethnig lleiafrifol? | % |
| 19 | Pa ganran o'ch arweinyddiaeth a'r rhai hynny ymhlith eich partneriaid ar gyfer y rownd hon sy'n uniaethu fel menywod? | % |
| 20 | Os ydych chi'n gweithio gyda phartneriaid ar gyfer y rownd hon o gyllid, faint o staff â thâl sydd ganddynt? | # |
| 21 | Os ydych chi'n gweithio gyda phartneriaid ar gyfer y rownd hon o gyllid, faint o staff gwirfoddol sydd ganddynt? | # |
| 22 | Pa % o blant a phobl ifanc ydych chi'n amcangyfrif fydd yn dod o gefndir Du, yn Asiaidd neu leiafrif ethnig yn eich cymdogaeth(au) arfaethedig? | 0-25% / 26-50%/ 51%-75%/ 76-100% |
| 23 | Pa % o blant a phobl ifanc ydych chi'n amcangyfrif fydd ag anghenion addysgol arbenigol neu ag anableddau yn eich cymdogaeth(au) arfaethedig? | 0-25%/ 26-50%/ 51-75%/ 76-100% |

| | | |
|---|---|---|
| 24 | Pa % o blant a phobl ifanc ydych chi'n amcangyfrif a fydd mewn gofal neu wedi bod mewn gofal yn eich cymdogaeth(au) arfaethedig? | 0-25%/ 26-50%/ 51-75%/ 76-100% |
| 25 | Pa % o blant a phobl ifanc ydych chi'n amcangyfrif fydd yn ferched yn eich cymdogaeth(au) arfaethedig? | 0-25%/ 26-50%/ 51-75%/ 76-100% |
| 26 | Pa % o'r plant ar bobl ifanc rydych chi'n bwriadu gweithio gyda nhw gyda'r rownd hon o gyllid fydd yn 10 i 13 oed yn eich cymdogaeth(au) arfaethedig? | 0-25%/ 26-50%/ 51-75%/ 76-100% |
| 27 | Pa % o'r plant ar bobl ifanc rydych chi'n bwriadu gweithio gyda nhw gyda'r rownd hon o gyllid fydd yn 14 i 17 oed yn eich cymdogaeth(au) arfaethedig? | 0-25%/ 26-50%/ 51-75%/ 76-100% |
| 28 | Pa % o'r plant ar bobl ifanc rydych chi'n bwriadu gweithio gyda nhw gyda'r rownd hon o gyllid fydd yn 18 i 20 oed yn eich cymdogaeth(au) arfaethedig? | 0-25%/ 26-50%/ 51-75%/ 76-100% |
| 29 | Ym mha ranbarth o'r wlad byddwch chi'n gweithio ynddi?<br>Ble bydd y gwaith hwn yn digwydd? | Opsiynau: Lloegr / Cymru<br>Os dewisir Lloegr – dangoswch y rhestr hon o ranbarthau yn y dewisydd cwymplen:<br>☐ Dwyrain Canolbarth Lloegr<br>☐ Dwyrain Lloegr<br>☐ Llundain<br>☐ Y Gogledd-ddwyrain<br>☐ Y gogledd-orllewin<br>☐ Y De-ddwyrain<br>☐ Y Dde-orllewin<br>☐ Gorllewin Canolbarth Lloegr<br>☐ Swydd Efrog a Hymber<br><br>YCHWANEGWCH ARDALOEDD AWDURDODAU LLEOL O DAN Y RHAIN. Mae'r rhestr hon ar gael yma: https://geoportal.statistics.gov.uk/datasets/lower-tier-local-authority-to-upper-tier-local-authority-december-2020-lookup-in-england-and-wales<br><br>Bydd pobl yn gallu dewis y rhanbarth ac yna dod o hyd i'r ALl ynddo. Mae angen opsiwn amlddewis oherwydd gallai pobl ddarparu ar draws sawl rhanbarth ac ardal ALl, ac mae |
| 3. Pennawd: Deall y gweithgaredd | | |
| 30 | Pa wahaniaeth fydd y prosiect yn ei wneud, os caiff ei gyllido? / Beth ydych chi'n gobeithio y bydd eich prosiect yn ei gyflawni, os caiff ei gyllido? [Uchafswm o 250 gair] | Testun Rhydd [250 gair] |
| 31 | Beth yw'r angen / galw am eich prosiect? Pa dystiolaeth sydd ar gyfer hyn? Sut mae eich gwasanaethau'n bodloni ein canlyniadau o ddiddordeb ar gyfer y rownd hon o grantiau?<br><br>*Dywedwch wrthym ni am y ddwy gymdogaeth y byddwch chi'n gweithio ynddynt (e.e. nifer y plant a'r bobl ifanc sydd ar fin mynd i ofal neu sydd mewn perygl o brofi trais / ecsbloetio troseddol y tu allan i'r cartref) a'r materion allweddol megis y rhai hynny a nodwyd a'r problemau yn y meysydd hynny.* [Uchafswm o 250 gair] | Testun Rhydd [250 gair] |

| | | |
|---|---|---|
| 32 | Ar hyn o bryd, rydym ni wedi nodi rhestr o ganlyniadau posib sy’n cynnwys canlyniadau tymor canolog a thymor hir (gweler tudalen 19 o'r canllawiau). Mae’r rhain yn cynnwys canlyniadau i blant a phobl ifanc, teuluoedd a gofalwyr a chanlyniadau ar gyfer y gymuned a’r systemau lleol.<br><br>Pa ganlyniadau tymor canolog a thymor hir sydd o’r diddordeb mwyaf i chi drwy gyflawni’r prosiect? | Opsiynau Cwymplen –gellir dewis mwy nag un ateb<br><br><u>Canlyniadau tymor hir</u>:<br>•Cyfoedion troseddol<br>•Dioddefwr trais<br>•Ymddygiad troseddol - troseddau treisgar<br>•Ymddygiad troseddol - troseddau nad ydynt yn dreisgar<br>•Arall – os caiff ei ddewis, darparwch faes testun rhydd<br>•Dd/B<br><br><u>Canlyniadau tymor canolog:</u><br>Plant a phobl ifanc<br>- Lles emosiynol ac iechyd meddwl plant<br>- Perthnasoedd ystyrlon â theuluoedd a gofalwyr<br>- Hapusrwydd<br>- Hunan-barch<br>- Anawsterau ymddygiadol<br>- Nifer y plant sy’n cael eu hatgyfeirio at/sy’n cael eu derbyn i'r system ofal.<br>-Ymgysylltiad ag ysgolion: presenoldeb yn yr ysgol a gwaharddiadau o’r ysgol<br>-Darpariaeth gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol, ariannol, llefarydd ac iaith ac addysgol<br>-Hunaniaeth gadarnhaol a chymdeithasol-fuddiol<br>-Lleihau'r defnydd o gyffuriau ac alcohol<br>-Darpariaeth o weithgareddau sy’n cael effaith gadarnhaol |

| | | |
|---|---|---|
| | | -Ecsbloetio plant yn droseddol<br>-Cam-drin<br><br>Teuluoedd a gofalwyr<br>-Lleihau'r defnydd o gyffuriau ac alcohol<br>-Perthnasoedd gwell â theuluoedd a chymorth gwell<br>-Mwy o sefydlogrwydd a gwydnwch<br>-Mwy o gyfranogiad wrth gynllunio ymyriadau ac atebion<br>-Llai o gorbryder<br>-Gwella problemau tai<br>-Mwy o gyflogaeth<br><br>Cymunedau<br>-Darpariaeth o weithgareddau ag effaith gadarnhaol<br>-Mwy o gyfranogiad wrth gynllunio ymyriadau ac atebion<br>-Teimlo'n fwy diogel ac yn hapusach am eu cymdogaeth<br>-Mwy o gydlyniant cymunedol a grymuso<br><br>*<br>-Gwasanaethau cydlynus<br>-Darpariaeth sefydlog o wasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol, ariannol, lleferydd ac addysgol,<br>-Profiad wedi'i symleiddio o'r system i blant a theuluoedd a'u teuluoedd a'u gofalwyr,<br>-Nifer y plant sy'n cael eu hatgyfeirio at/sy'n cael eu derbyn i'r system ofal. |
| 33 | Disgrifiwch y gweithgaredd mae prosiect eich tîm a'ch partneriaid yn cynllunio ei gyflwyno, gan ystyried y fframwaith cyflwyno yn y ddogfen ganllaw a geir yma? | Testun Rhydd [uchafswm o 500 gair] |
| 34 | Pa drefniadau strategol a gweithredol sydd gennych chi ar waith **<u>ar hyn o bryd</u>** i weithio gyda phlant a phobl ifanc, y mae trais y tu allan i'r cartref yn effeithio arnynt (e.e. trefniadau gweithredol, partneriaethau aml-asiantaeth, protocolau a threfniadau rhannu data?) | Testun Rhydd [uchafswm o 250 gair] |
| 35 | Os byddwch chi'n llwyddiannus ac yn derbyn cyllid o'r rownd hon, pa drefniadau strategol a gweithredol ydych chi'n **<u>bwriadu eu rhoi ar waith</u>** i weithio gyda phlant a phobl ifanc, y mae trais y tu allan i'r cartref yn effeithio arnynt (e.e. trefniadau gweithredol, partneriaethau aml-asiantaeth, protocolau a threfniadau rhannu data?) | Testun Rhydd [uchafswm o 250 gair] |
| 36 | Esboniwch sut y byddwch chi'n sicrhau bod y gweithgareddau a ddarperir gennych yn gynhwysol? | Testun Rhydd [uchafswm o 250 gair] |

| | | |
|---|---|---|
| 37 | Ym mha gyd-destun ydych chi'n darparu gweithgareddau i gefnogi plant a phobl ifanc ar hyn o bryd?<br><br>Ym mha gyd-destun ydych chi'n cynllunio darparu gweithgareddau i gefnogi plant a phobl ifanc ar gyfer y prosiect hwn? | Ysgol neu gyd-destun addysgol arall<br>-Plentyn/cartref pobl ifanc<br>-Cyd-destun cymunedol<br>-Clwb chwaraeon neu adloniant / Cyfleusterau hamdden<br>-Canolfan ieuenctid neu gyd-destun cymunedol arall<br>-Cyd-destun gofal cymdeithasol<br>-Cyd-destun gwasanaethau plant<br>-Cyd-destun iechyd<br>-Yr Heddlu neu gyd-destun cyfiawnder troseddol<br>-arall (nodwch) |
| 38 | Ar gyfartaledd, am ba hyd ydych chi'n **gweithio** gyda phlant a phobl ifanc **ar hyn o bryd** i ddarparu eich gweithgareddau (nodwch nifer y misoedd)?<br><br>Hefyd, am ba hyd ydych chi'n **cynllunio** gweithio gyda phlant a phobl ifanc, fel a amlinellwyd yn unol â fframwaith cyflwyno'r rownd hon o'r grantiau (nodwch nifer y misoedd)?<br><br>Beth yw'r rheswm am y hyd cyflwyno? | Nifer y misoedd a'r testun rhydd [250 gair] |
| 4. Pennawd: Hyder am weithgaredd | | |
| 39 | Pa mor hyderus ydych chi y bydd eich gweithgaredd yn arwain at y newid hwn?<br><br>Beth sy'n gwneud i chi ddewis yr opsiwn hwn? Dylech chi gynnwys unrhyw esboniad am sut y bydd y gweithgaredd hwn yn arwain at y newid hwn.<br><br>Dylech chi gynnwys dolen/cyfeiriad at unrhyw dystiolaeth gefnogi a ddyfynwyd - dylech chi osgoi unrhyw ddolenni at fideos neu gyfryngau eraill oherwydd ni fyddwn yn gallu asesu'r rhannau hyn o'r cais | Opsiynau: Uchel iawn/Uchel/Eithaf uchel/Cymhedrol/Isel<br><br>Ar ôl dewis: Testun Rhydd [500 gair] |
| 40 | Lanlwythwch Ddamcaniaeth Newid a / neu ddogfennaeth Model o Resymeg yma. Sicrhewch y caiff y dystiolaeth a'r wybodaeth ei lanlwytho yn hytrach na dolenni i fideos. | |

| | | |
|---|---|---|
| 41 | Rydym ni'n dymuno gweithio gyda charfan sy'n debygol o gynnwys (er na fydd yn gyfyngedig i) plant a phobl ifanc sydd rhwng 10 ac 20 oed yn bennaf, ac sydd wedi bod neu sydd mewn perygl uchel o drais, troseddi a/neu ecsbloetio yn effeithio arnynt, i atal ailadrodd a lleihau niwed hir dymor, drwy fodloni un neu fwy o'r canlyniadau tymor canolog a hir dymor fel a amlinellwyd o fewn y rownd hon o gyllido.<br><br>P'un o'r canlynol ydych chi'n debygol o weithio gyda nhw? | * Profiad o ofal.<br>* Yn hysbys i 'help cynnar' yr awdurdod lleol, plant mewn angen, gwasanaethau diogelu plant, gwasanaethau ecsbloetio arbenigol neu sefydliadau VCFSE arbenigol.<br>* Troseddu neu fod yn rhan o ymddygiad gwrthgymdeithasol, gan gynnwys cyfoedion<br>* Wedi'u gwahardd yn barhaol o'r ysgol, yn derbyn gwaharddiadau cyfnod penodol rheolaidd, 'tynnu plant oddi ar y gofrestr' neu bresenoldeb gwael yn yr ysgol.<br>* Mynd ar goll yn rheolaidd.<br>* Anableddau/AAAD.<br>* Camddefnyddio sylweddau.<br>* Rhieni neu siblingiaid sy'n gysylltiedig â throseddu.<br>* Digartref, neu mewn llety annibynnol neu hanner-annibynnol – yn enwedig plant yn eu harddegau neu oedolion ifanc.<br>* Profiadau o hiliaeth strwythurol a sefydliadol.<br>* Arall (testun rhydd) |
| 42 | Sut y bydd plant a phobl ifanc a'u teuluoedd yn cyrchu'r gwasanaeth?<br><br>Ac os felly, sut mae hyn yn wahanol i'ch dulliau presennol o fynediad at eich gwasanaethau? | Testun Rhydd [250 gair] |
| 43 | Yn y rownd hon, rydym ni'n dymuno gweithio gyda charfan sy'n debygol o gynnwys (er na fydd yn gyfyngedig i) plant sydd rhwng 10 ac 20 oed, ac sydd wedi bod neu sydd mewn perygl uchel o drais, troseddi a/neu ecsbloetio yn effeithio arnynt, i atal ailadrodd a lleihau niwed hir dymor.<br><br>Bydd angen i chi ddangos:<br><br>- mae lefelau uchel o drais ieuenctid a/neu droseddu yn yr ardal awdurdod lleol **A'R** ddwy gymdogaeth rydych chi'n bwriadu gweithio gyda nhw (e.e. trais gyda chyfrifon/cyfraddau anafiadau, cyfrifon troseddu trais ar gyfer ardaloedd ALl SLOA, cyfraddau troseddu ieuenctid gan blant ar gyfer y system cyfiawnder troseddol).<br><br>- mae niferoedd uchel o blant a phobl ifanc mewn perygl o niwed y tu allan i'r cartref yn eich ardal awdurdod lleol a channoedd o blant a phobl ifanc yn y cwmpas yn y ddwy gymdogaeth rydych chi'n bwriadu gweithio gyda nhw (ar gyfer yr amcangyfrif gorau o niferoedd cyffredinol mewn ardaloedd, rydym ni'n gofyn i chi ddarparu data ar gyfer is-gategorïau yn ein carfan ddiffiniedig ynghyd â'r asesiad gorau o gyfanswm y niferoedd ar gyfer yr awdurdod lleol a chymdogaethau arfaethedig (i ystyried cyfrifon dwbl) gyfer yr holl dystiolaeth gefnogi<br>- y potensial i uwchraddio i dwy cymdogaeth o leiaf NEU eich bod chi'n gallu gweithio mewn partneriaeth ag ardal awdurdod lleol arall i uwchraddio<br><br>Sut byddwch chi'n dangos hyn? | Testun Rhydd [500 gair] |

| 5. Pennawd: Risg | | |
|---|---|---|
| 44 | Yn aml, mae sefydliadau'n ei chael hi'n anodd cyrraedd pobl ifanc maent am weithio gyda nhw. Sut fyddech chi'n asesu'r risg **<u>na fyddwch chi'n gallu cyrraedd y bobl ifanc yn llwyddiannus</u>** rydych chii'n ceisio eu cyrraedd? | Opsiynau: Uchel iawn/Uchel/Eithaf uchel/Cymhedrol/Isel<br><br>Ar ôl dewis: Testun Rhydd [500 gair] |
| 45 | Mewn rhai achosion, mae sefydliadau'n ei chael hi'n anodd cyflwyno'r gweithgaredd maent wedi cyflwyno cais i'w gyflwyno. Beth yw'r risg **<u>na fyddwch chi'n gallu cyflwyno'r ymyriad yn llwyddiannus?</u>**<br>Beth sy'n gwneud i chi ddewis yr opsiwn hwn?<br><br>(Mae rhai pethau i'w hystyried yn cynnwys)<br>- A fyddai anhawster wrth ddatblygu partneriaethau â phartneriaid lleol<br>- Recriwtio'r personél gofynnol<br>- Llwybrau atgyfeirio<br>- Protocolau rhannu data<br>- Gallu ymarferol sefydliadol | Opsiynau: Uchel iawn/Uchel/Eithaf uchel/Cymhedrol/Isel<br><br>Ar ôl dewis: Testun Rhydd [500 gair] |
| 46 | Pa brofiad sydd gennych chi o ddarparu gweithgareddau i blant a phobl ifanc rhwng 10 ac 20 oed sy'n rhan o, neu sydd mewn perygl o fod yn rhan o, drais y tu allan i'r cartref a/neu ecsbloetio troseddol? | Testun Rhydd [250 gair] |
| 47 | Sut ydych chi'n sicrhau cysylltiadau a pherthnasoedd gweithio da â'r cymunedau rydych chi'n cynnig gwasanaethau iddynt?<br><br>Sut ydych chi'n cynnwys adborth gan ddefnyddwyr i wella eich prosiect a'i gyflwyno? | Testun Rhydd [250 gair] |
| 48 | Bydd angen i sefydliadau gyd-gynllunio eu gwasanaeth ar y cyd â phlant a phobl ifanc a chynnwys plant a phobl ifanc wrth gynllunio ac adolygu gwasanaethau.<br><br>Sut byddwch chi'n sicrhau y caiff plant a phobl ifanc eu cynnwys yng ngwaith cyd-gynllunio, cyflwyno ac adolygu eich gwasanaeth? | Testun Rhydd [250 gair] |
| 49 | Bydd angen i sefydliadau gyd-gynllunio eu gwasanaeth gan ystyried rhieni a gofalwyr fel partneriaid yn y tîm aml-asiantaeth.<br><br>Sut byddwch chi'n sicrhau y caiff **rhieni a gofalwyr** eu cynnwys yng ngwaith cyd-gynllunio, cyflwyno ac adolygu eich gwasanaeth (gan gynnwys hyfforddiant, cymorth a chyfrifoldebau)? | Testun Rhydd [250 gair] |
| 50 | Mae gennym ni ddiddordeb yn lefel profiad y bobl sy'n darparu'r gweithgareddau. Allwch chi ddweud wrthym ni ychydig am y bobl hyn (gwirfoddolwyr neu staff â thâl), eu lefel o brofiad ar | Testun Rhydd [100 gair] |
| 51 | Gan feddwl am eich sefydliad a'r cymunedau rydych chi'n gweithio gyda nhw, sut byddwch chi'n sicrhau bod eich tîm o staff (ar lefelau ymarferydd ac arweinyddiaeth) yn gallu diwallu anghenion y plant a'r bobl ifanc, eu teuluoedd drwy gynrychiolaeth, sgiliau a gwybodaeth? | Testun Rhydd [250 gair] |
| 52 | Ar wahân i'r pethau rydych chi eisoes wedi sôn amdanynt, oes unrhyw ffactorau risg eraill y | Cyn dewis: Testun Rhydd [20 gair] |

| | | |
|---|---|---|
| | bydd yn rhaid i chi eu hystyried a allai eich atal a/neu eich partneriaid rhag cyflwyno eich gweithgareddau?<br><br>Pa mor debygol yw hyn? | Opsiynau: Uchel iawn/Uchel/Eithaf uchel/Cymedrol/Isel<br><br>Ar ôl dewis: Testun Rhydd [250 gair] |
| 6. Pennawd: Dywedwch wrthym ni am y bobl ifanc byddwch chi'n gweithio gyda nhw | | |
| 53 | Beth yw'r nifer isaf ac uchaf o blant a phobl ifanc o fewn y cwmpas y gallech chi gyflwyno gweithgareddau ar eu cyfer ar hyd cyfnod y rownd hon o gyllid arfaethedig? *Sylwer y byddai'n rhaid i hyn fod yn y cannoedd ar gyfer pob cymdogaeth rydych chi'n bwriadu gweithio ynddynt.* | (2 Nifer y meysydd ar gyfer yr isaf a'r uchaf) |
| 54 | Dros y 12 mis diwethaf, faint o blant a phobl ifanc gwnaeth eich gwasanaethau eu cefnogi, drwy unrhyw brosiect presennol, ar gyfer y grwpiau oedran canlynol:<br><br>a) 10-13<br>b) 14-17<br>c) 18-20<br><br>Fformat yr ateb:<br>a) #<br>b) #<br>c) #<br><br>Darparwch unrhyw ddata neu dystiolaeth sy'n cefnogi'r wybodaeth rydych chi wedi'i darparu. | Rhifau'r meysydd<br><br>a) #<br>b) #<br>c) # |
| 55 | Rydym ni'n disgwyl i chi ddarparu 10% o gylllid cyfatebol - gallai hyn fod yn gymorth ar ffurf nwyddau, cyfalaf neu gronfeydd refeniw. Nodwch sut y byddwch chi'n gwneud hyn. Er enghraifft, costau llety, staff wedi'u secondio. | Testun Rhydd [250 gair] |